PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 21 MAWRTH 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Wong(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Henshaw, Jenkins, Lloyd Jones, Naughton a/ac Thomson |

66 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Rodney Berman, Y Cynghorydd Stephen Cunnah a Zack Hellard – cynrychiolydd y Cyngor Ieuenctid.

67 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd buddiannau gan; y Cynghorydd Lloyd Jones a ddatganodd fuddiant personol fel aelod o'r Wal Goch; datganodd y Cynghorydd Henshaw fuddiant personol gan fod ganddi aelodau o'r teulu sy'n gweithio i'r Cyngor. Datganodd yr Arweinydd fuddiannau personol gan ei fod yn aelod o'r Wal Goch ac fel Cyfarwyddwr Stadiwm y Mileniwm PLC. Datganodd y Prif Weithredwr fuddiant personol fel Cyfarwyddwr Stadiwm y Mileniwm PLC.

68 : EWROS 2028

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddai'r eitem hon yn craffu cyn gwneud penderfyniad ar adroddiad i'r Cabinet sy'n ceisio cymeradwyaeth i Gaerdydd gyflwyno cais terfynol i fod yn Ddinas Groeso ar gyfer Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop UEFA 2028 ("Euro 2028").

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau ei fod wedi cytuno bod yr eitem hon yn cael ei hystyried yn 'fater brys', fel y nodir yn y Cyfansoddiad, ac felly cafodd Galw i Mewn ei ddatgymhwyso.
Nododd yr Aelodau fod yr eitem hon yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn Atodiadau 1-7 – a gofynnwyd iddynt beidio â chyfeirio at y rhain yn y sesiwn agored.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thomas – Arweinydd; Y Cynghorydd Burke - Yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau; Paul Orders – Prif Weithredwr a Kathryn Richards – Pennaeth Diwylliant, Lleoliadau, Twristiaeth a Digwyddiadau ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr i wneud datganiadau agoriadol ac ar ôl hynny gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am unrhyw gwestiynau, sylwadau neu arsylwadau.

Nododd yr Aelodau fanteision cynnal twrnament Ewro 2028 ond gofynnodd am y risgiau allweddol os oedd y cais yn llwyddiannus. Cafodd aelodau wybod mai'r risg allweddol oedd cynnydd yn y costau, ond dywedodd y Prif Weithredwr y byddai swyddogion yn ceisio rheoli hyn drwy'r broses gyllideb. Ychwanegwyd bod rhaid wrth gyflwyno digwyddiadau mawr ystyried ffactorau allanol bob amser. Wrth drafod

rheoli digwyddiad o'r fath, dywedwyd wrth yr Aelodau fod trefniadau partneriaeth wedi’u hen brofi ar waith, gyda sawl lefel o arbenigedd rhwng y Cyngor a'i bartneriaid.

Gan gyfeirio at faterion trafnidiaeth mewn digwyddiadau mawr, gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd ynghylch ymrwymiad a hyder wrth ddelio â thwrnamaint o'r raddfa hon. Esboniodd yr Arweinydd fod capasiti'r Stadiwm yn hysbys, felly cynllunnir ar gyfer hyn yn y dull a gymerwyd. Cyn hynny bu materion mewn perthynas â gwaith gweithredu diwydiannol a seilwaith trafnidiaeth, ond gellir ystyried profiadau blaenorol. Ychwanegodd yr Arweinydd fod trafnidiaeth ar gyfer Cynghrair y Pencampwyr wedi ei rheoli'n dynn gyda phartneriaid, yn enwedig Trafnidiaeth Cymru ac y byddai dull tebyg yn cael ei fabwysiadu. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, oherwydd maint y digwyddiad, y byddai lefel y cymorth gan Lywodraeth a'r Sector Cyhoeddus yn sylweddol a manylid arno ar y cam cynllunio trafnidiaeth.

Cyfeiriodd yr aelodau at gyfathrebu o gwmpas y digwyddiad ac ystyriwyd y negeseuon a roddwyd yn ystod Cynghrair y Pencampwyr, a arweiniodd at ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr yng Nghanol y Ddinas. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r neges Gyfathrebu yn cael ei hystyried yn ofalus ac y byddai'n anelu at gynyddu arosiadau yn y Ddinas.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o’r pwynt hwn gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan y Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â’r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o’r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

69 : GLANFA'R IWERYDD

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn eitem craffu cyn penderfynu, gan ganolbwyntio ar yr argymhellion i'r Cabinet ynglŷn â chynllun Glanfa'r Iwerydd.

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr eitem hon yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn Atodiadau 2-6 a 8-13 i Atodiad A – a gofynnwyd iddynt beidio â chyfeirio at y rhain yn y sesiwn agored.

Croesawodd y Cadeirydd Neil Hanratty – Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd a Chris Barnett – Rheolwr Gweithredol – Prosiectau Mawr, ar gyfer yr eitem hon. Nodwyd ymddiheuriadau'r Cynghorydd Goodway.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ar wybodaeth gyhoeddus ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau ganddynt.

Wrth drafod Canolfan y Ddraig Goch, gofynnodd yr Aelodau am eglurhad am gost cyfalaf ei phrynu, pan gafodd ei brynu a sut mae'n cael ei gostio i'r datblygiad. Cafodd yr aelodau wybod iddi gael ei brynu yn 2020, roedd y swm a dalwyd yn gyhoeddus. Ar hyn o bryd mae'r incwm yn fwy na'r costau fel bod gwarged yn cael ei glustnodi a'i gynnwys am ddyledion drwg. Mae darpariaeth hefyd wedi ei wneud o

gronfa galedi Llywodraeth Cymru ar gyfer dyledion drwg. Nododd yr aelodau fod y cost cyfalaf yn dal yn ddyledus ar y fantolen ac na fyddai unrhyw incwm pan fydd y ganolfan yn mynd i ddatblygiad Glanfa'r Iwerydd. Esboniodd swyddogion y byddai'r manylion ynghylch adfer y traul cyfalaf cychwynnol yn yr achos busnes amlinellol.

Gan gyfeirio at yr adolygiad o'r seilwaith ehangach, gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y byddai effeithiau cadarnhaol i'r trigolion lleol. Eglurodd swyddogion fod adolygiad wedi bod o'r dyluniad i adennill arian ac adolygiad o'r isadeiledd a sut y byddai'n cael ei gyflwyno. Doedd swyddogion ddim yn ystyried y byddai unrhyw gyfaddawd o gwbl ar ansawdd y datblygiad a dyluniad y mannau gwyrdd/cyhoeddus, byddai'r rhain yn dal i gael eu darparu yn unol â'r caniatâd cynllunio.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o’r pwynt hwn gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan y Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â’r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o’r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 70 : CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD – GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CRAFFU AR Y CYD - DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Amlinellodd y Prif Swyddog Craffu yr adroddiad a gofynnodd i Aelodau fynegi diddordeb mewn eistedd ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Craffu ar y cyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN).

Mynegodd yr Aelodau canlynol ddiddordeb: Cynghorwyr P Jenkins, Thomson, Lloyd Jones, Henshaw, Brown-Reckless.

## 71 : ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU DRAFFT

Esboniodd y Prif Swyddog Craffu fod yr adroddiad hwn yn gofyn am gymeradwyaeth aelodau o dudalennau y Pwyllgor Craffu ar yr Economi a Diwylliant o’r Adroddiad Blynyddol Craffu ar y cyd 2022-23, ynghlwm fel Atodiad A.

Gofynnwyd i'r aelodau am unrhyw welliannau/ychwanegiadau a allai fod ganddynt a dymunai'r Aelodau gynnwys y Llawr Sglefrio Iâ fel eitem i’w hystyried.

Wrth drafod blaenoriaethau'r dyfodol, mynegodd Aelodau ddiddordeb i edrych ar Lwybr Dŵr Taf o Dongwynlais i Fae Caerdydd, a Phrosiect Pont Llanrhymni.

## 72 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

73 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

25 Ebrill 2023 am 4.30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 7.20 pm